| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 26 Ionawr 2017 |
| **Teitl yr Adroddiad** | Cyflwyno Adroddiad Astudiaeth Alun Charles, Ymgynghorydd Allanol. |
| **Aelod Cabinet :** | Y Cyng. Gareth Thomas |
| **Swyddog Perthnasol:** | Arwyn Thomas |

**CEFNDIR**

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Addysg Gymraeg y Cyngor Sir i weithrediad, cysondeb a llwyddiant Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd yn ysgolion y sir yn dod i'r casgliad, ar sail astudiaeth o dair ardal benodol, fod 'dehongli'r polisi'n amrywio'n arw ac yn ddibynnol ar ddemograffi ieithyddol dalgylchoedd ysgolion yn ogystal ag o ran sêl athrawon a phrifathrawon dros y Gymraeg.' Mae'n ychwanegu 'nad oes cysondeb nac ychwaith ddealltwriaeth cyffredinol o'r gofynion.' Caiff hyn ei ategu hefyd yn adroddiad Cwmni Trywydd ar sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifainc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae'r Adroddiad Ymchwiliad Craffu ei hunan yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r mater cyn cloi gyda nifer o argymhellion ar gyfer gwella cysondeb gweithredu'r Polisi. Yn eu plith mae'r argymhellion canlynol:

*Er mwyn cryfhau a chysoni Polisi Iaith Addysg y Cyngor dylai'r Cyngor ddiffinio yr hyn ydyw dysgu dwyieithog, gan gydweithio gydag ysgolion a sefydliadau hyfforddi athrawon i sefydlu addysgeg ddwyieithrwydd gadarn sy'n addas ar gyfer holl ysgolion a disgyblion yr Awdurdod a meithrin sgiliau trawsieithu ymysg staff.*

*Er mwyn cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith (Addysg) y Cyngor, mae angen diffinio'n eglur natur ieithyddol holl ysgolion uwchradd Gwynedd fel ei bod yn glir i'r holl randdeiliaid beth yw natur ieithyddol yr ysgolion gan ddal yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn atebol am ei weithrediad.'*

Mae'r astudiaeth hon yn ymwneud â'r ail argymhelliad yn bennaf ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith.

Mae Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol, Alun Charles, i gyflawni'r Astudiaeth. Ffrwyth yr Astudiaeth yw'r adroddiad ynghlwm – Atodiad 1 - sydd yn cynnwys nifer o gasgliadau ac argymhellion i'w hystyried.